



Community Covenant

CYFAMOD CYMUNEDOL Y LLUOEDD ARFOG

RHWNG

CYNGOR SIR TORFAEN, CYNRYCHIOLWYR Y SECTORAU ELUSENNOL
A GWIRFODDOL,
CYMUNED SIFIL TORFAEN

A'R

GYMUNED LLUOEDD ARFOG YN NHORFAEN

**Rydym ni, sydd â'n llofnodion isod, yn cytuno i weithio
a gweithredu gyda'n gilydd i anrhydeddu Cyfamod
Cymunedol y Lluoedd Arfog.**

(llofnodwyr ar blac yr addewid a'r llyfr llofnodion)

ADRAN 1: EGWYDDORION CYFAMOD CYMUNEDOL Y LLUOEDD ARFOG

1.1 Mae Cyfamod Cymunedol y Lluoedd Arfog Torfaen yn ddatganiad gwirfoddol o gyd-gefnogaeth rhwng cymuned sifil a'i Chymuned Lluoedd Arfog lleol. Bwriedir iddo gyd-fynd gyda Chyfamod y Lluoedd Arfog, sy'n amlinellu'r rhwymedigaeth foesol rhwng y Genedl, y Llywodraeth a'r Lluoedd Arfog, ar lefel leol.

1.2 Amcan y Cyfamod Cymunedol hwn yw annog cefnogaeth i'r Gymuned Lluoedd Arfog sy'n gweithio ac yn byw yn Nhorfaen a chydabod a chofio aberth aelodau'r Gymuned Lluoedd Arfog hon, yn arbennig y rheiny sydd wedi rhoi'r mwyaf. Mae hyn yn cynnwys y rheiny sy'n gwasanaethu ac a fu'n gwasanaethu, eu teuluoedd a'u gweddwon a gwŷr gweddw yn Nhorfaen.

1.3 I Gyngor Sir Torfaen a sefydliadau partner, mae'r Cyfamod Cymunedol yn cynnig cyfle i gyfeirio'u gwybodaeth, profiad ac arbenigedd tuag at ddarparu cymorth a chyngor i aelodau o'r Gymuned Lluoedd Arfog. Mae'n cynnig cyfle hefyd i adeiladu ar waith da sydd eisoes wedi ei wneud ar fentrau eraill fel y Llwybr Lles.

1.4 I Gymuned y Lluoedd Arfog, mae'r Cyfamod Cymunedol yn annog integreiddio bywyd mewn Gwasanaeth Milwrol i mewn i fywyd sifil ac yn annog aelodau o'r gymuned Lluoedd Arfog i helpu eu cymunedau lleol.

ADRAN 2: AMCANION A BWRIADAU CYFFREDINOL

Amcanion y Cyfamod Cymunedol

2.1 Mae Cyfamod Cymunedol y Lluoedd Arfog yn cyd-fynd ag egwyddorion Cyfamod y Lluoedd Arfog sy'n diffinio'r egwyddorion cyffredinol, oesol a ddylai reoli'r berthynas rhwng y Genedl, y Llywodraeth a chymuned y Lluoedd Arfog.

2.2 Ei fwriad yw annog yr holl bartïon mewn cymuned i gynnig cefnogaeth i'r gymuned Lluoedd Arfog leol a'i gwneud yn haws i aelodau'r Lluoedd, eu teuluoedd a chyn-filwyr i gael mynediad i'r cymorth a chefnogaeth sydd ar gael o'r Weinyddiaeth Amddiffyn, o ddarparwyr statudol ac o'r Sector Elusennol a Gwirfoddol. Mae'r sefydliadau yma eisoes yn cydweithio ar lefel leol.

2.3 Bwriedir i'r cynllun fod yn drefniant dwy ffordd ac mae'r gymuned Lluoedd Arfog yn cael eu hannog i wneud gymaint ag y maen nhw'n gallu i gefnogi eu cymuned a hybu gweithgaredd sy'n integreiddio gymuned filwrol i mewn i fywyd sifil.

ADRAN 3: Mesurau

3.1 Ar y cyd gyda phartneriaid, bydd llofnodwyr y cyfamod yn datblygu Cynllun Gwaith Cyfamod y Lluoedd Arfog Torfaen i fynd i'r afael â 5 nod allweddol y Cyfamod sef:

1. Annog cymunedau lleol i gefnogi'r cymunedau Lluoedd Arfog yn eu hardal
2. Meithrin dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth ymhlith y cyhoedd o'r problemau sy'n effeithio ar y Gymuned Lluoedd Arfog

3. Cydnabod a chofio'r aberth y mae'r Gymuned Lluoedd Arfog yn ei wynebu
4. Annog gweithgareddau sy'n cynorthwyo integreiddio'r Gymuned Lluoedd Arfog i mewn i fywyd lleol
5. Annog y gymuned Lluoedd Arfog i helpu a chefnogi'r gymuned ehangach

3.2 Bydd y camau'n cael eu gyrru gan dasglu yn cynnwys cynrychiolwyr sectorau amrywiol

Bydd y grŵp yn cael ei gadeirio gan yr Hyrwyddwyr Lluoedd Arfog ac yn cwrdd yn ôl yr angen i yrru'r cynllun gwaith yn ei flaen

PERSONÉL CYSWLLT A RHIFAU FFÔN

Tîm Cyfamod y Weinyddiaeth Amddiffyn Pennaeth y Staff Amddiffyn (Pers. a Hyff.)

Cyfeiriad e-bost: covenant-mailbox@mod.uk
Cyfeiriad: Tîm Cyfamod Pennaeth y Staff Amddiffyn (Pers.)
Parth D, 6^{ed} Llawr
Y Weinyddiaeth Amddiffyn
Prif Adeilad
Whitehall
Llundain
SW1A 2HB

Cynrychiolwyr mewn gwasanaeth

Enw Cyswllt: Y Capten Gareth Dibble

Teitl: Y Capten Gareth Dibble
Ffôn: 01633 242628
Cyfeiriad: 104ydd Catrawd y Magnelwyr Brenhinol (Gwirfoddolwyr)
Barics Rhaglan
CASNEWYDD
De Cymru
NP20 5XE

Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen

Enw Cyswllt: Tara Gardner
Teitl: Swyddog Atebolrwydd ar Sail Deiliannau
Ffôn: 01495 742886
Ffacs:
Cyfeiriad: Llawer 5, Y Ganolfan Ddinesig
Pont-y-pŵl
NP4 6YB